The Coal Authority

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



## Cwmnewydion
## Mwynglawdd Wemyss, Mwynglawdd Graig Goch a Cheuffordd Frongoch

# Y Rhaglen Mwyngloddiau Metel

Tachwedd 2023

## Cefndir

Mae mwyngloddiau metel segur yn achosi llawer o lygredd yma yng Nghymru, gan niweidio ecoleg afonydd gyda metelau fel cadmiwm, plwm, sinc a chopr. Mae tua 1,300 o fwyngloddiau metel segur ar hyd a lled ein gwlad, ac amcangyfrifir eu bod nhw'n effeithio ar dros 700 km o afonydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Awdurdod Glo yn cydweithio ar Raglen Mwyngloddiau Metel (ac eithrio glo) i fynd i'r afael â'r gwaddol llygredig hwn. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r rhaglen.

Prif nod y Rhaglen yw lleihau llygredd o fwyngloddiau metel segur, lle bo hynny'n ymarferol yn dechnegol ac yn ariannol, er mwyn gwella iechyd ein hafonydd, er budd yr amgylchedd, pobl a'r economi.

Wrth wneud hynny, bydd hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, ac yn gwella manteision lles cymunedol, fel y manylir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Y cyd-destun

Rydyn ni'n edrych ar effaith Mwynglawdd Wemyss, Mwynglawdd Graig Goch a Cheuffordd Frongoch ar Nant Cwmnewydion sy'n codi tua 2 km i'r de-orllewin o bentref Trisant a 3.75 km i'r gogledd-orllewin o Bont-rhyd-y-groes, Ceredigion.

Mae Nant Cwmnewydion wedi'i halogi'n drwm â sinc, plwm a chadmiwm a'r ffynhonnell fwyaf yw Ceuffordd Frongoch, sy'n draenio gweithfeydd tanddaearol mwyngloddiau Frongoch a Wemyss.

Mae'r nant o ganlyniad yn ffynhonnell fawr o fetelau i Nant Magwr ac Afon Ystwyth, gan achosi methiannau o ran sinc, plwm a chadmiwm. Mae lefel y metelau yn parhau'n uchel nes bod Afon Ystwyth yn cwrdd â therfynau'r llanw ychydig y tu allan i Aberystwyth.

Mae'r metelau ecotocsig hyn yn achosi difrod amgylcheddol ac ecolegol sylweddol, gan leihau poblogaethau pysgod ac amrywiaeth o ffawna infertebratau.

Yr amcan hirdymor yw lleihau'r llwythi metel sy'n gollwng i lednant Nant Cwmnewydion, ac yn y pen draw Afon Ystwyth, gan greu afon iachach i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

# Hynt y brosiect

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi bod yn casglu gwybodaeth i ddeall yn well y risg o lygredd o Fwynglawdd Wemyss, Mwynglawdd Graig Goch a Cheuffordd Frongoch er mwyn nodi rhestr o atebion lliniaru posibl.

Mae Mwynglawdd Graig Goch a Cheuffordd Frongoch yn cael eu datblygu gyda'i gilydd o dan un prosiect o'r enw Cwmnewydion, gyda Mwynglawdd Wemyss yn cael ei ddatblygu fel prosiect ar wahân o fewn y Rhaglen gyfan. Mae timau'r ddau brosiect yn gweithio'n agos i chwilio am arbedion a sicrhau'r buddion mwyaf posibl.

Rydyn ni wedi comisiynu Adroddiad Cwmpasu sy'n cynnwys Mwynglawdd Graig Goch a Cheuffordd Frongoch ac wedi cynnal asesiadau archeolegol ac ecolegol, er mwyn nodi'r problemau sy'n achosi llygredd i'r cwrs dŵr/ansawdd y dŵr ac y mae angen mynd i'r afael â hwy.

## Mwynglawdd Wemyss

Ym mwynglawdd Wemyss, nododd Astudiaeth Ddichonoldeb mai'r prif ffynonellau llygredd yw'r tomenni rwbel llawn metelau sy'n nodweddu'r safle. Mae erydiad, symud a thrwytholchi metelau'n digwydd lle mae'r cyrsiau dŵr a dŵr glaw yn cymysgu â'r gwastraff mwynglawdd hwn.

## Cwmnewydion

Rydym wedi gosod strwythur monitro llif yng ngheufforff Frongoch i gofnodi llifiant gan ddal i fonitro ansawdd dŵr yn fisol mewn lleoliadau ar hyd Nant Cwmnewydion

**Opsiynau lliniaru posibl**

- **Rheoli dŵr wyneb e.e. draenio safle mwynglawdd**
- **Trin dŵr mwynglawdd**
- **Rheoli gwaddodion**
- **Capio gwastraff mwynglawdd**
- **Ail-broffilio gwastraff mwynglawdd**
- **Rheoli dŵr wyneb e.e. gwahanu**



# Y camau nesaf

## Cwmnewydion

Ym Mwynglawdd Graig Goch a Cheuffordd Frongoch, y cam nesaf yw cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb er mwyn asesu addasrwydd technegol, amgylcheddol ac economaidd yr amrywiol opsiynau lliniaru posibl.

Rydyn ni'n ystyried opsiynau ymyrryd posibl i leihau llygredd i'r dyfrffyrdd cyfagos, gyda'r nod o wella ansawdd y dŵr ar hyd Nant Magwr ac Afon Ystwyth.

Mae pob safle'n unigryw gyda'i heriau a'i gyfleoedd ei hun. Mae'n debygol y bydd angen cyfuniad o'r opsiynau lliniaru posibl ar lefel uchel er mwyn llwyddo i wella ansawdd dŵr yn Nant Cwmnewydion, Nant Magwr ac Afon Ystwyth.

Hoffem gael eich barn a'ch safbwyntiau wrth i ni barhau i ddatblygu ein hopsiynau, yn ogystal â'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach sydd ar gael.

Bydd hyn yn arwain at restr fer o opsiynau dichonadwy a fydd yn arwain at ddewis strategaeth adfer a ffefrir ar gyfer y safle.

Mae'n debygol mai strategaeth fesul cam fydd hon, sy'n targedu ffynonellau llygredd penodol dros gyfnod o sawl blwyddyn, gan ganiatáu dylunio, adeiladu ac yna asesu pob ymyrraeth.

Hoffem i'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill fod yn rhan allweddol o'r broses hon.

Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus yn ddiweddarach yn y prosiect, ac yn cyhoeddi cylchlythyrau a fydd yn esbonio hynt y prosiect.

Am ragor o wybodaeth, ewch i Citizen Space:

**bit.ly/MwynglawddMetelCwmnewydion**

## Mwynglawdd Wemyss

Yn Wemyss rydyn ni wrthi'n gweithio ar sawl ymyriad peirianyddol ar gyfer rheoli dŵr wyneb i amlinellu'r dyluniad.

Nid Dyluniad amlillenol yw'r cynllun terfynol i'r safle; mae'n cynyrchioli y cydrannau allweddol o'r system y credwn y caiff ei roi ar waith.

Mae'r ymyriadau yn cynnwys rheoli llif, ail-broffilio rwbel, atal gwastraff rhag llygru, dargyfeirio ffrydiau a draenio gwell.

Nod yr ymyriadau hyn yw i atal dŵr rhag rhyngweithio gyda tomenni pridd sydd yn gyfoethog o fetel  yn yr ardal , a bydd hyn yn lleihau'r maint o fetelau niweidiol fydd yn mynd i mewn i'r cyrsiau dŵr

Am ragor o wybodaeth, ewch i Citizen Space:

**bit.ly/MwynglawddMetelWemyss**



# Amserlen

Cyflwynir amserlen ddangosol isod, sy'n amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol.

| Hyd yma | Haf 2024 | Gwanwyn 2025 | Haf 2025 | 2026 Ymlaen |
|---|---|---|---|---|
| **Asesu** | **Diffinio'r broblem** | **Dewisiadau'r rhestr fer** | **Strategaeth adfer a ffefrir** | **Y dewis a ffefrir** |
| Arolwg gwaelodlin a monitro ansawdd dŵr er mwyn llywio Astudiaeth Gwmpasu a rhestr hir o opsiynau adferiad. | Astudiaeth Dichonoldeb i asesu rhestr hir o opsiynau ac i nodi rhestr fer addas. | Digwyddiad ymgynghori Rhanddeiliaid er mwyn cael adborth ar y rhestr fer o opsiynau. | Datblygiad o'r Strategaeth Adfer a ffefrir i'r safle gyda opsiynau ymyrraeth graddedig er mwyn eu hystyried ymhellach. | Dylunio ac adeiladu yr opsiwn ymyrraeth gyda'r sgôr uchaf gan ddilyn gyda asesiad o'r effaith ar safon dŵr. |

# Cadw mewn cysylltiad a sut i gymryd rhan

Hoffem glywed gennych wrth i ni ddatblygu'r prosiectau ac archwilio'r cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol ehangach y gellir eu datblygu fel rhan o'r strategaethau adfer a ffefrir.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, gweler dolenni'r tudalennau Citizen Space ar gyfer Wemyss a Chwmnewydion isod:

Cysylltwch â ni os ydych chi am ragor o wybodaeth; ymuno â'r rhestr e-bost neu rannu sylwadau.

Os oes gennych unrhyw adborth ar y prosiect hyd yma, neu ar unrhyw un o'r pwyntiau a drafodwyd yn y cylchlythyr hwn, cysylltwch â ni.


0300 065 3000
cwmnewydion@metalmineswales.co.uk
bit.ly/MwynglawddMetelCwmnewydion

0300 065 3000
wemyss@metalmineswales.co.uk
bit.ly/MwynglawddMetelWemyss


The Coal Authority

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales